# THEATR BRYCHEINIOG

## Pamffled y Tymor
## *Hydref & Gaeaf*



*Hydref–Ionawr* 2024 2025

www.brycheiniog.co.uk
Swyddfa Docynnau: 01874 611 622
Theatr Brycheiniog Cyf, Canal Wharf, Brecon, Powys. LD3 7EW

Charity number | Rhif elusen 1005327

Theatr Brycheiniog · theatrbrycheiniog · @Brycheiniog

# CROESO
## *Welcome*



**Yng nghalon Bannau Brycheiniog ar lan cei deniadol Camlas Mynwy ac Aberhonddu, mae Theatr Brycheiniog yn gynnes a chroesawgar, gan gynnig rhaglen uchelgeisiol o ddigwyddiadau proffesiynol a chymunedol.**

Mae ein caffi ar lan y gamlas yn lle gwych i ymlacio ynddo, boed hynny cyn dechrau sioe, i gael brecwast, cinio neu goffi a theisen a wnaed gartref; mae gennym fwydlenni ar gyfer pob achlysur.

## *Hello/Shwmae!*

Mae ein tymor hydref / gaeaf yma o'r diwedd! Ar gynffon eu llwyddiant ysgubol Operation Julie, daw Theatr na nOg yn ôl gyda **The Fight**, darn diddorol o hanes Cymru am y bocsiwr a aned ym Merthyr, Cuthbert Taylor; daw Black Rat Productions atom gyda'u hantur fyrly-mus **The Three Musketeers**, ac mae Cwmni Dawns Cenedlaethol Cymru'n cyflwyno **Frontiers/ Gorwelion a Zoetrope**, deuawd o berfformiadau dyrchafol na ddylid mo'u colli.

Cawn ddechrau tymor y Nadolig wrth i It's An Act fynd â ni ar daith yn llawn o hud a lledrith yn **Aladdin**, mae Lighthouse Theatre yn cyflwyno **O Little Town of Aberystwyth** a daw Bale Gŵyl Aberhonddu'n ôl gyda'u clasur Nadolig annwyl, **The Nutcracker**. Gall pawb sy'n caru'r pantomeim ddisgwyl gwledd wrth i'r Westenders ddychwelyd yn 2025 gyda **Robin Hood**, a hynny ar ôl i Opera Cenedlaethol Cymru roi'u **Dathliad Calan i ni.**

Mae digonedd o gerddoriaeth i'w fwynhau, gan ddechrau gydag arlwy rhagorol **Gŵyl Faróc Aberhonddu**, cyn i ni groesawu **Brecon Town Concert Band James Bond Spectacular; Christina Rogers; Legends of American Country** a **Buddy Holly and the Cricketers**.

Mae ein sioeau i'r teulu'n cynnwys yr hudol ac epig **Welsh Dragon** gan Theatr Iolo, dehongliad Theatr Sherman o **Red Riding Hood** a'r clasur oesol **The Very Hungry Caterpillar** – heb anghofio **Rude Science**, y sioe wyddoniaeth fwyaf drwg yn y byd!

Gall caredigion ffilm edrych ymlaen at gynhyrchiad Kevin Allen o **Under Milk Wood** (2015), gyda Rhys Ifans yn rhan o gast o ddoniau gorau Cymru.

Diolch o waelod calon am eich amynedd parhaus yn ystod y gwaith adeiladu sy'n dal i ddigwydd, rydyn ni wir yn gwerthfawrogi eich dealltwriaeth.

Sut bynnag y dewiswch chi ddathlu tymor yr Ŵyl eleni, gobeithio y bydd yn llawn o lawenydd a heddwch.

Nadolig Llawen oddi wrth bawb ohonom yn Theatr Brycheiniog!

*Eleri B. Jones*
Cyfarwyddwr y Theatr

Rhestrir sioeau yn nhrefn eu dyddiad, ac fe'u trefnir yn ôl lliw o ran genre. Mae'r allwedd ar gyfer lliwiau'r genres isod.

**SGRINIO BYW** | **CYMUNED** | **CERDDORIAETH FYW** | **FFILMIAU A DARLITHIAU**
**COMEDI** | **DAWNS** | **TEULUOEDD AC YSGOLION** | **THEATR & SIOEAU CERDD**

# BWYD A DIOD

## Brecwast
Gweinir bwyd
9-11.30am

## Cinio
Gweinir bwyd 12-2.30pm

Gweinir **Bwydlen Gyda'r Hwyr** ar nosweithiau sioeau

## Platiau Antipasti
Rhagarchebwch ar gyfer nos-weithiau sioeau

**Mae Caffi Theatr Brycheiniog yn lle bywiog a chroesawgar, sy'n cynnig dewis hyfryd o fwyd a diod ar gyfer cynulleidfaoedd ein theatr, aelodau'r gymuned, twristiaid, ymwelwyr a digwyddiadau a archebwyd sydd ag anghenion arlwyo hefyd. Ffynnonellir ein cynhwysion o safon o'r ardal leol ble bo'n bosib, a'u paratoi yn ein hadeilad gan dîm anhygoel ein cegin.**








## Sgrinio Byw

Mae perfformiad Jodie Comer (Killing Eve) sydd wedi ennill gwobrau Olivier a Tony yn nrama un fenyw afaelgar Suzie Miller yn dychwelyd i sinemâu.

Mae Tessa'n far gyfreithiwr ifanc disglair iawn. Gweithiodd ei ffordd o'i gwreiddiau dosbarth gweithiol i fod ar frig ei gêm: amddiffyn, croesholi ac ennill, Ond mae digwyddiad annisgwyl yn ei gorfodi i wynebu'r llinellau ble mae grym patriarchaidd y gyfraith, baich tystiolaeth a moesau'n gwahanu.

**Iau 3 Hyd | 7.15pm**

**Tocynnau £17.50** + Ffi Archebu
Gostyngiadau ar gael

HYDREF 2024

## Banff Mountain Film Festival

**Blue Film Programme**

Mae Gŵyl Ffilm Fynyddig Banff yn ôl gydag arlwy newydd sbon o ffilmiau byrion deniadol yn llawn dop o deithiau eithafol, cymeriadau unigryw a sinematograffi eithriadol. Ymunwch â phrif wneu-thurwyr ffilm awyr agored y byd, ac anturiaethwyr, wrth iddyn nhw ddringo, sgïo, rhwyfo, rhedeg a reidio drwy gorneli gwylltaf y blaned!



**Gwe 4 Hyd | 7.30pm**

**Tocynnau £16.75** + Ffi Archebu
Gostyngiadau ar gael

HYDREF 2024



# Brecon Baroque *Festival*

**Gwe 11 - Llu 14 Hyd**

### Welcome to all the Pleasures
Brecon Cathedral
**Gwe 11 Hyd | 7.30pm**
**£30** + Ffi Archebu

### Ceridwen & Gwion Bach Exhibition & Talk
Y Gaer
**Sad 12 Hyd | 10.30am**
**£10** + Ffi Archebu

### Lunchtime Chamber Concert
The Plough Chapel
**Sad 12 Hyd | 1pm**
**£25** + Ffi Archebu

### French Connexions
Theatr Brycheiniog
**Sad 12 Hyd | 7.30pm**
**£30** + Ffi Archebu

### For the Love of the Viol
Tithe Barn, Brecon Cathedral Close
**Sul 13 Hyd | 10.30am**
**£10** + Ffi Archebu

### Organ Recital
Brecon Cathedral
**Sul 13 Hyd | 1pm**
**£15** + Ffi Archebu

### Festival Evensong
Brecon Cathedral
**Sul 13 Hyd | 3.30pm**
**Free, non ticketed event**

### History of Bows & Bow Making
Tithe Barn, Brecon Cathedral Close
**Sul 13 Hyd | 4.15pm**
**£10** + Ffi Archebu

### Pardessus in Paradise - The Woman's Violin
The Plough Chapel
**Sul 13 Hyd | 6pm**
**£28** + Ffi Archebu

### A Tour of Y Gaer Museum
Y Gaer
**Llu 14 Hyd | 10.30am**
**£10** + Ffi Archebu

### Buffardin in Germany
The Plough Chapel
**Llu 14 Hyd | 12pm**
**£25** + Ffi Archebu

### Pot Pourri
Theatr Brycheiniog
**Llu 14 Hyd | 6pm**
**£28** + Ffi Archebu

Sefydlwyd Gŵyl Faróc Aberhonddu gan Rachel Podger yn 2006. Bob mis Hydref bydd Rachel yn dwyn ynghyd rai o gerddorion cyfnod mwyaf blaenllaw'r byd ar gyfer penwythnos hir o berfformiadau a gweithdai yng Nghadeirlan Aberhonddu a Theatr Brycheiniog, gyda theithiau cerdded a sgyrsiau bob pen o gylch Aberhonddu. Mae ymrwymiad Rachel i'r genhedlaeth nesaf hefyd yn golygu fod pob gŵyl yn cynnwys cyfleoedd i fyfyrwyr a cherddorion iau gymryd rhan a chwarae ochr yn ochr â cherddorion ar frig eu galwedigaeth.




BRECON
BAROQUE
FESTIVAL



# National Dance Company Wales

## Frontiers / Gorwelion

**Dewch i ddianc i fyd yn llawn cyffro trwy wylio dwy ddawns gan Gwmni Dawns Cenedlaethol Cymru – profiad dawns cadarnhaol a gwirioneddol gelfydd.**

**Mae AUGUST gan Matthew Robinson yn symud rhwng y peryglus a'r hardd. Mae a wnelo AUGUST â ffarwelio, a'r newidiadau sy'n ein dwyn ynghyd ac yn ein gwahanu.**

Yn Skinners gan Melanie Lane, rydym yn gwegian ar ymyl dyfodol gwefreiddiol a dychrynllyd. Os mai Deallusrwydd Artiffisial a hidlyddion fydd ein realiti newydd, sut y gallwn ddychwelyd at ein croen, sy'n rhan annatod ohonom?

**Mer 16 Hyd | 7.30pm**

**Tocynnau £19** + Ffi Archebu
Gostyngiadau ar gael



## Zoetrope

**Dewch yn llu i gael eich diddanu a'ch syfrdanu ym myd rhyfeddol Zoetrope!**


A yw awr yn ddigon o amser i ddysgu am holl hanes dyn? Mae'n annhebygol.

A yw'n ddigon o amser i gael eich syfrdanu, eichdiddori a'ch diddanu? Yn bendant.

Bydd eich dychymyg yn rhedeg yn wyllt wrth i fadfallod, tsimpansïaid a sgerbydau neidio a llamu ar draws llwyfan, yn archwilio cerddoriaeth ac effeithiau clyfar.

**Iau 17 Hyd | 1pm**

**Tocynnau £8** + Ffi Archebu
Gostyngiadau ar gael




**Mae fFatti fFilms ar y cyd ag S4C, Tinopolis a Ffilm Cymru Wales, yn falch o gyflwyno diweddariad radical Kevin Allen o ddrama farddol eiconig Dylan Thomas, Under Milk Wood / Dan y Wenallt.**

**Gwe 18 Hyd | 7.30pm**

**Tocynnau £15** + Ffi Archebu
Gostyngiadau ar gael

**Mae Dan y Wenallt (Under Milk Wood) yn agor wrth iddi fachludo, â holl drigolion ecsentrig Llareggub (darllenwch yr enw am yn ôl) yn cysgu'n drwm, a thrwy gyfrwng Capten Cat dall – porth byw'r stori, y mae Llais 1 a Llais 2 yn ein harwain drwy'r chwedl ryfeddol hon – down yn raddol i ddeall ein bod ni'n tystio i freuddwydion dyfnaf trigolion y dref.**

HYDREF 2024

# The Royal Ballet
## Alice's Adventures in Wonderland *Sgrinio Byw*

Mewn garddwest ar brynhawn heulog, mae Alice yn synnu o weld cyfaill ei rhieni Lewis Carroll yn trawsnewid yn gwningen wen. Wrth iddi ei ddilyn i lawr twll cwningen, mae digwyddiadau'n troi'n rhyfeddach a rhyfeddach...

**Sul 20 Hyd | 2pm**

**Tocynnau £17.50** + Ffi Archebu

Gostyngiadau ar gael



## Brecon Town Concert Band
# Last Night of the Proms
## *James Bond Spectacular*

Mwynhewch gerddoriaeth eich hoff Bond, o'r ffilm, gyntaf oll i'r rhai mwy diweddar; gallwch hyd yn oed wisgo fel eich hoff Arwr neu Ddihiryn!

Bydd ail hanner y cyngerdd yn cynnwys y pianydd cyngerdd nodedig Catherine Nardiello ynghyd â'r ffefrynnau arferol: caneuon morwrol Prydeinig, Land of Hope and Glory, a Jerusalem.

**Sad 26 Hyd | 7.30pm**

**Tocynnau £15** + Ffi Archebu

Gostyngiadau ar gael






Bellach, a thros 350,000 o edmygwyr byw wedi'u gweld, a miliynau ar deledu, mae sioe aml-wobrwyol rhif 1 Ewrop, "The Legends of American Country" yn ôl am noson wych arall o Ganu Gwlad hiraethus a chyffrous.

**Llu 28 Hyd | 7.30pm**

**Tocynnau £28.50** + Ffi Archebu

Gostyngiadau ar gael

**Mae'r tîm a gyflwynodd The Invisible Man a The Adventures of Sherlock Holmes yn ôl gyda fersiwn hwyliog gwych o antur 17eg ganrif Alexandre Dumas.**

Dewch ar antur fyrlymus yng nghwmni Black RAT Productions, y cwmni sydd â hwyl yn y gwaed! Bydd cast egnïol o 4 actor yn chwarae aml ran yn y ddrama liwgar newydd yma sydd wedi'i hysbrydoli gan y nofel adnabyddus.

**Maw 29 Hyd | 7.30pm**

**Tocynnau £15** + Ffi Archebu

Gostyngiadau ar gael

Argymhelliad – Addas ar gyfer pobl 11 oed a hŷn

Gyda chefnogaeth Cyngor Celfyddydau Cymru



# The Welsh Dragon

Pan mae waliau castell yng Nghymru yn dechrau chwalu oherwydd brwydr rhwng dwy ddraig sy'n byw yn y ddaeargell, dim ond rhywun o dras Gymreig pur sy'n gallu rhoi stop ar bethau. Ond sut ydyn ni'n gwybod yn union os yw rhywun yn Gymry neu beidio?

Gyda cherddoriaeth, rap a thro hanesyddol, mae'r ddrama feiddgar newydd hon i blant yn cymryd golwg ar linach Ddu Prydain ac yn gofyn i ni gwestiynu'r storïau sydd wedi'u trosglwyddo o genhedlaeth i genhedlaeth.

Argymhellir ar gyfer 7-13 oed

Theatr Iolo



**Iau 31 Hyd | 2pm &7pm**

**Tocynnau £12** + Ffi Archebu

HYDREF 2024




Gan gychwyn y noson â'i theyrnged i'r seren Adele: fe gewch chi'r gwallt, y ffrogiau secwins, yr arabedd ffraeth ac wrth gwrs, y perfformiad lleisiol eiconig. Gallwch ddisgwyl anthemau fel 'Hello', 'Easy on me' a 'Rolling in the deep', fydd yn denu deigryn ac yn mynnu eich codi i ddawnsio.

Mae Christina wedi teilwra ail hanner bythgofiadwy i'r noson. Cewch ganeuon o'u hoff berfformiadau erioed gan artistiaid a'i lluniodd i fod yr hyn yw hi heddiw. Popeth o faledi i dorri'r gallon i fawrion roc a disgo!

**Gwe 1 Tac | 7.30pm**

**Tocynnau £22** + Ffi Archebu

Gostyngiadau ar gael




Paratowch ar gyfer sioe deulu ffrwydrol newydd y Gastronôt Teledu Stefan Gates, sy'n llawn dop o styntiau, arbrofion syfrdanol a phropiau annisgwyl. Byddwch yn barod am ben-olau enfawr, peiriannau rhechu, tân gwyllt a wefrir gan bi-pi, a mannequins sy'n chwydu – a'r cyfan wedi'i gynllunio i ysbrydoli cynulleidfaoedd drwy wyddoniaeth.

Argymhellir ar gyfer 7-13 oed

**Sul 3 Tac | 11.30am & 3pm**

**Tocynnau £15** + Ffi Archebu

Gostyngiadau ar gael

TACHWEDD 2024

# Royal Opera House

## Wolf Witch Giant Fairy

**Peidiwch â cholli'r opera werin 'mewn llwyfaniad hudol' i'r teulu oll, gan ddilyn rhediad buddugoliaethus a enillodd Wobr Olivier yn 2021.**

Ymunwch â'n criw brith o gerddorion gwyllt wrth iddyn nhw arwain y teulu cyfan drwy'r chwedl enwog hon, gyda throeon newydd, swyn a chân.

**Iau 7 Tac | 6.30pm**

**Tocynnau £17.50** + Ffi Archebu

Gostyngiadau ar gael



Sherman Theatre

## Little Red Riding Hood

**Maw 12 Tac | 11am (Saesneg)**
**Maw 12 Tac | 1pm (Cymraeg)**

**Tocynnau £12** + Ffi Archebu
Gostyngiadau ar gael

Mae hi'n Nadolig. Amser i fwynhau, dathlu a rhannu anrhegion. Mae Red wrth ei bodd yn derbyn anrhegion, a phan mae clogyn coch arbennig yn ymddangos yn ei hosan Nadolig, mae yna gyffro drwy'r tŷ!

Wrth fynd am dro i weld ei mam-gu, mae hi'n mynd ar goll yn y goedwig ac yn cyfarfod blaidd llwglyd. Er bod y blaidd yn chwarae triciau arni ac yn ei thwyllo, mae'r ddau'n dod i nabod ei gilydd ac yn darganfod bod llawer mwy i'r Nadolig nag anrhegion a theganau newydd.

Argymhellir ar gyfer 3-6 oed




## Mochyn Myrddin / Merlin's Pig



Mae Milly Jackdaw yn cyflwyno cyfuniad o adrodd straeon traddodiadol, drama gorfforol, cerddoriaeth a seremoni yn y perfformiad unigol hwn a seiliwyd ar fywyd Myrddin a'i ymwneud ag anifeiliaid hudol. Cawn gyfle i archwilio'r chwedl fyw, a'i pherthnasedd i'n bywyd cyfoes ni drwy gyfrwng chwedlau sy'n adfer ymdeimlad o ystyr, rhyfeddod a gobaith.

**Iau 14 Tac | 7.30pm**

**Tocynnau £15** + Ffi Archebu
Gostyngiadau ar gael




## Andrea Bocelli 30 The Celebration

Daw amffitheatr naturiol syfrdanol o hardd yn Toscana, yr Eidal, yn fyw gydag alawon hudol wrth i'r tenor Eidalaidd byd-enwog Andrea Bocelli nodi penllanw 30 mlynedd fel canwr, gyda chyngerdd dros dridiau yn ei dref enedigol.

**Sad 16 Tac | 7pm**

**Tocynnau £20** + Ffi Archebu
**Ar werth yn fuan**

## ‘Breeding Boxers on the Breadline’

Yng nghymoedd difreintiedig y 1930au, roedd bocsio yn fwy na fath o chwaraeon; roedd yn ffordd allan o dlodi. Dylai Cuthbert Taylor o Merthyr, sydd nawr yn cael ei weld fel un o focswyr orau ei genhedlaeth, fod wedi cael y cyfle i frwydro am deitl Prydeinig, ond cafodd ei wrthod oherwydd lliw ei groen.







**Maw 19 Tac | 1pm**
**Mer 20 Tac | 1pm & 6.30pm**
**Iau 21 Tac | 1pm**

**Tocynnau £15** + Ffi Archebu
Gostyngiadau ar gael

**Mae sioe newydd gan gwmni arobryn Theatr na nÓg yn cyflwyno'ch plant i themâu fel bywyd yng nghymunedau dosbarth gweithiol y cymoedd yn y 1920au-40au; hiliaeth sefydliadol, mewnfudo a gwladychiaeth; hanes bocsio ddoe a heddiw  Perffaith ar gyfer Cam Cynnydd 3**






**Sad 23 Tac | 1.30pm & 4.30pm**
**Sul 24 Tac | 11am & 2pm**

**Tocynnau £15.50 +** Ffi Archebu
Gostyngiadau ar gael

Mae’r cynhyrchiad o The Very Hungry Caterpillar Show, a swynodd y beirniaid, ac a grëwyd gan Jonathan Rockerfeller yn cynnwys 75 pyped annwyl. Mae’r cynhyrchiad yn addasu pedair stori gan yr awdur/darlunydd Eric Carle yn ffyddlon: Brown Bear, Brown Bear’, ‘10 Little Rubber Ducks’, ‘The Very Busy Spider’ ac wrth gwrs, seren y sioe –The Very Hungry Caterpillar’.

Bydd Buddy Holly and the Cricketers unwaith eto’n datgan dyfodiad y Nadolig, gyda Holly at Christmas, y sioe sydd erbyn hyn yr un mor draddodiadol â mins pei a gwin poeth!
Mewn gwledd o adloniant chwim, chwyrn a doniol, a fydd yn rhodd berffaith ar gyfer y teulu oll, cewch glywed goreuon Holly, clasuron cyfoes eraill ac ambell Gracyr Dolig.


**Llu 25 Tac | 7.30pm**

**Tocynnau £25** + Ffi Archebu
Gostyngiadau ar gael




TACHWEDD 2024

# TACHWEDD 2024




## Pantomeim Teuluol

Dewch i ymuno ag Aladdin dros gyfnod yr wyl, with iddo fynd ar siwrne hudolus, bythgofiadwy i ddod o hyd i'w ffortiwn a'i gariad.

Mae'r pantomeim teuluol anhygoel yma yn llawn o'r holl gynhwysion pantomeim traddodiadol y byddwch yn disgwyl gan gwmni theatr It's An Act. Mi fydd y sioe yn cynnwys gwisgoedd lliwgar ag ysblennydd, caneuon a dawnsio llawn egni, comedi di-ri ac amriw o gyfleoedd i ymuno a'r hwyl, yntau yn bwio yr hen Abanazar cas neu yn cefnogi Aladdin.

**Peidiwch colli'r cyfle i for yn rhan o'r hwyl dros y Nadolig, a gwnech yn siwr bod tocynnau i'r theatr ar dop eich rhestr siopa!**

**Gwe 29 Tac | 7pm**
**Sad 30 Tac | 2pm & 7pm**
**Sul 1 Rha | 12pm & 5pm**

**Tocynnau £18.50** + Ffi Archebu
**Teulu o bedwar £65** + Ffi Archebu




# RHAGFYR 2024

## O Little Town of Aberystwyth

**"Plant yn canu, seirenau'r heddlu'n seinio, cnau castan yn cael eu dwyn o dân amddifad .... ac mewn stryd gefn frwnt yn yr ardal Dsieineaidd mae Siôn Corn un o'r siopau mawr yn gorwedd yn farw mewn pwll o'i waed ei hun - Aberystwyth adeg y Nadolig."**

Mae Brenhines Denmarc yn llogi'r unig ddictectif preifat yng Ngheredigion, Louie Knight. Mewn pum niwrnod, gyda'i bartner ffyddlon Calamity, rhaid iddo ddatrys yr achos - os nad yw'n llwyddo, ni fydd Nadolig, dim anrhegion i'r plant a dim cyngerdd ar gyfer y pengwiniaid sy'n hoffi canu carolau ....

**Gwe 6 Rha | 7.30pm**

**Tocynnau £16.50** + Ffi Archebu
Gostyngiadau ar gael



RHAGFYR 2024

# The Royal Ballet Cinderella



Sgrinio Byw

A hithau'n gaeth yn y tŷ a than fawd ei llys-chwiorydd creulon, mae bywyd Cinderella'n ddiflas a di-liw. Mae popeth yn newid pan ddaw i roi cymorth i ddynes ddirgel... Gydag ychydig o hud a lledrith, caiff ei chipio i fyd newydd arallfydol – ble mae tylwyth teg yn dod â rhoddion y tymhorau, ble mae pwmpenni'n troi'n goetshys, a ble mae gwir gariad yn disgwyl amdani.

**Maw 10 Tac | 7.15pm**

**Tocynnau £17.50** + Ffi Archebu
Gostyngiadau ar gael

# Brecon Festival Ballet The Nutcracker

**Croesewir y cynhyrchiad hudol hwn o'r bale Nadolig enwocaf gan Fale Gŵyl Aberhonddu yn ôl i'r llwyfan–y digwyddiad tymhorol perffaith i'r teulu oll gyda cherddoriaeth enwog Tchaikovsky'n cael ei chwarae'n fyw gan Gerddorfa Fale Gŵyl Aberhonddu a thros 85 o ddawnswyr ar y llwyfan!**

**Gwe 20 Rha | 7.30pm**
**Sad 21 Rha | 2.30pm & 7.30pm**
**Sul 22 Rha | 2.30pm & 7.30pm**

**Tocynnau £26.50** + Ffi Archebu
**Teulu o bedwar** + Ffi Archebu
Gostyngiadau ar gael



Cewch eich cipio i barti Nadolig traddodiadol o Oes Fictoria gyntaf, wedyn drwy storm o Blu Eira'r Goedwig Nadolig, ac ymlaen at Deyrnas y Losin dan deyrnasiaeth y Dylwythen Deg Eirin Siwgr, ble caiff Clara a'i Nutcracker eu gwala o felysion a dawnsiau o bob cwr o'r byd! Dyma'r ffordd ddelfrydol i ddechrau eich Nadolig!

IONAWR 2025

# Welsh National Opera Orchestra



## A New Year's Celebration

**Sul 5 Ion | 4pm**

**Ar werth yn fuan**

IONAWR 2025




**Tocynnau £19** + Ffi Archebu

**Ymunwch â'r Westenders unwaith eto ar gyfer eu cynhyrchiad pantomeim blynyddol, sef Robin Hood.**

Yn llawn dop o'r cynhwysion traddodiadol – ac ambell un annisgwyl – y mae cynulleidfaoedd Theatr Brycheiniog wedi dod i'w disgwyl. Mae Robin Hood yn cynnwys comedi fydd yn denu chwerthin mawr, setiau syfrdanol, cerddoriaeth a dawns a fydd yn eich cymell i guro dwylo a thraed ymhell wedi i'r llen ddisgyn! Ac wrth gwrs, digonedd o weiddi 'bwww' a hisian ar Sheriff Nottingham drwg, a chymeradwyo a bloeddio dros ein harwr, Robin Hood a'i griw o Merry Men.

**Gwe 24 Ion | 7pm**
**Sad 25 Ion | 12pm & 5pm**
**Sul 26 Ion | 12pm & 5pm**
**Maw 28 Ion | 7pm**
(BSL Interpreted)
**Mer 29 Ion | 7pm**
**Iau 30 Ion | 7pm**
**Gwe 31 Ion | 7pm**
**Sad 1 Chw | 1pm & 6pm**

# COMING SOON

| | |
|---|---|
| Maw - Gor 2025 | Young Music Promoters Youth Events |
| 5 Chwefror | An Evening with Sir Gareth Edwards |
| 20 Chwefror | John Barrowman: Laid Bare |
| 21 Chwefror | The Simon & Garfunkel Story |
| 22 Chwefror | Rorke's Drift Concert |
| 20 Mawrth | Banff Mountain Film Festival World Tour 2025 |
| 6 Mehefin | Tommy Blaize: 50 Years in Music |

# Friends & Patrons

Rydyn ni wedi gwrando ar adborth gan ein Cyfeillion, Noddwyr a chynulleidfaoedd, ac rydyn ni bellach yn falch o allu cyhoeddi ein bod ni'n ail-lansio ein cynllun Cyfeillion a Noddwyr.

Mae lleoliad Theatr Brycheiniog yn unigryw – yng nghesail tirweddau delfrydol Bannau Brycheiniog, ac o dan Warchodfa Awyr Dywyll gyda'r ansawdd gorau drwy Brydain gyfan.

Ein nod yw dathlu ein cyswllt â'r amgylchedd, felly rydyn ni wedi enwi ein cynllun tair lefel i Gyfeillion ar ôl tri chopa uchaf Bannau Brycheiniog – Pen y Fan, Corn Du a'r Cribyn.

Enw ein Cynllun Noddwyr yw 'Seren' i gydnabod y Warchodfa Awyr Dywyll a'r cytserau deniadol sy'n tywynnu dros ein theatr wych.

## Seren

**Rhoddion dros £1000**

-Cael eich enwi fel noddwr y theatr ar ein gwefan
-Taith flynyddol o gwmpas y theatr
-Pecyn aelodaeth
-Cylchlythyr tymhorol
-Gwahoddiad i lansiad y tymor
-Archebu blaenoriaeth (ar sioeau dethol)
- Gostyngiad ar bris parcio car

## Cribyn

**£2.50 y mis neu £30 y flwyddyn**

Wedi'i gynllunio ar gyfer pobl dan 30 oed Pecyn yn cynnwys:

- Taith flynyddol o gwmpas y theatr
- Pecyn aelodaeth
- Cylchlythyr tymhorol
- Gwahoddiad i lansiad y tymor
- Archebu blaenoriaeth (ar sioeau dethol)
- Gostyngiad ar bris parcio car
- Car parking discount

## Pen y Fan

**£10 y mis neu £120 y flwyddyn**

Pecyn yn cynnwys:

-Cael eich enwi fel cyfaill y theatr ar ein gwefan
-Gostyngiad o 5% ar bris llogi ystafell
-Gostyngiad o 10% yn y caffi / bar
-Taith flynyddol o gwmpas y theatr
-Pecyn aelodaeth
-Cylchlythyr tymhorol
-Gwahoddiad i lansiad y tymor
-Archebu blaenoriaeth (ar sioeau dethol)
- Gostyngiad ar bris parcio car

## Corn Du

**£5 y mis neu £60 y flwyddyn**

Pecyn yn cynnwys:

-Gostyngiad o 10% yn y caffi / bar
-Taith flynyddol o gwmpas y theatr
-Pecyn aelodaeth
-Cylchlythyr tymhorol
-Gwahoddiad i lansiad y tymor
- Archebu blaenoriaeth (ar sioeau dethol)
- Gostyngiad ar bris parcio car




Bydd y strwythur newydd yn eich galluogi i barhau i gefnogi'r theatr ac yn helpu estyn eich arian ymhellach am y bydd yn ein galluogi i hawlio cymorth rhodd ar eich rhodd, gan godi 20% yn ychwanegol i'r elusen dros ben eich cyfraniad.

# DOSBARTHIADAU

## Baby B!

**Mer 11am - 12pm**

Babi B! yw grŵp gweithgaredd rhiant a phlentyn Theatr B!, sy'n cynnig rhyfeddod y theatr o oedran ifanc. Mae Babi B! yn hwyl, yn rhyngweithiol ac yn gynhwysol, gyda chaneuon a rhigymau traddodiadol i ymuno ynddyn nhw, stori i ddiddanu a digon o gyfleoedd i gwrdd ag eraill a chymdeithasu.

Cysylltwch â'r Swyddfa Docynnau ar 01874 611 622 os oes gennych unrhyw anghenion ychwanegol.

## Pilates Based Back Care

**Llun 10.30 - 11.30am & Mer 5.45 - 6.45pm**

Please contact Katy Sinnadurai
01874 625 992/07807 851 970 or
katy.sinna@btinternet.com

## Pilates Based Body Conditioning

**Llun 11.45am - 12.45pm**

Please contact Katy Sinnadurai
01874 625 992/07807 851 970 or
katy.sinna@btinternet.com

## Brecon Town Concert Band

Nos Lun 7pm - 9pm

Band Cyngerdd Tref Aberhonddu
Croeso i chwaraewyr o bob gallu, o ddysgwyr ifanc i'r rheiny sy'n dychwelyd at gerddoriaeth ar ôl cael seibiant. Byddwn ni'n chwarae mewn cyngherddau dan do ac awyr agored drwy gydol y flwyddyn. Cysylltwch â Dave Jones ar 07779 390 954 neu e-bostiwch conductorbtcb@aol.com www.brecontownband.com

## u3a

**Iau 10am - 3.45pm**

www.u3asites.uk
Please contact Poppy Weston 07592 006052
penelopeweston63@gmail.com

Please contact our Box Office for more information about these classes: 01874 611 622

## Tai Chi Buddies

**Maw 10 - 11am**

Please contact andrewllynfi@hotmail.

## Uplift Choir

**Maw 12 - 1.30pm**

£6/5 +75c Ffi Archebu.
Archebwch 50c yr wythnos drwy archebu


Dan arweiniad Tanya Walker: Arweinydd Côr Alive & Kicking a Hyfforddwr Llais
Mynnwch saib o'ch bywyd neu waith amser cinio ddydd Mawrth a rhowch fesur iachusol o lesiant i chi eich hun drwy ganu!

I gael mwy o wybodaeth, cysylltwch â Tanya Walker: 7723 016837/ tanyawalkermusic@hotmail.com

## Mid Wales Dance Academy

Theatr B! yw prif leoliad Academi Ddawns Canolbarth Cymru, ysgol ddawns fawr breifat â thros 300 o ddisgyblion, o 3 oed i oedolion. Maen nhw hefyd yn cynnig ystod o ddosbarthiadau gan gynnwys bale a tap, hiphop a stryd, a chynigir hefyd arholiadau gyda'r Royal Academy Of Dance, a'r Inter- national Dance Teachers Association.

For further information please contact Lesley Walker at info@mwda.co.uk



## Celf yn y Bar

Arddangosfa o waith celf sy'n cael ei newid yn rheolaidd gan artistiaid a gweithwyr creadigol o'r ardal leol, ar gael i'w prynu.

Ewch i'n gwefan i ddysgu sut allwch chi arddangos eich gwaith gyda ni.

**www.brycheiniog.co.uk**






# The Gremlin Lodge

*Just a one minute walk from the Theatre!*

Stay in the Brecon Beacons at the Gremlin Lodge

- One bed cottages plus sofa-bed
- Ideal for families
- Brecon town location near the Monmouthshire & Brecon Canal
- Self-catered facilities, continental breakfast supplied
- Free parking & Wifi

For bookings, please call 07919 318809 or email phillips285@btinternet.com
www. gremlin-lodge.com









# HAPPY HAMPER COMPANY

Discover the perfect gift for any occasion with our custom-made hampers! Our hampers are thoughtfully created to suit every taste and preference. We offer gluten free and vegan options, as well as hampers containing Welsh products, ensuring that everyone can enjoy a delightful selection of gourmet treats. With a variety of sizes available, you can find the ideal hamper to fit your needs. Order your personalised hamper today and make every celebration truly memorable!

Contact Christine or Robin Hill at Happyhamper.contact@gmail.com or call 07775 625233 to order yours today. Stay connected by following us on Facebook Happy Hamper Company




Mae'r wybodaeth a geir yn y llawlyfr hwn yn gywir adeg mynd i'r wasg. Mae Theatr Brycheiniog yn cadw'r hawl i wneud newidiadau os oes angen. I weld telerau ac amodau llawn, edrychwch ar ein gwefan os gwelwch yn dda.

## GWYBODAETH SWYDDFA DOCYNNAU

Mae ein Swyddfa Docynnau ar agor 9am-5pm bob dydd ac yn hwyrach ar noson sioe. Gellir archebu tocynnau ar lein hefyd ar www.brycheiniog.co.uk

## AD-DALIADAU A CHYFNEWID TOCYNNAU

Efallai na ellir ad-dalu pris tocyn oni bai fod y digwyddiad yn cael ei ganslo. Gellir cyfnewid tocynnau am rai i sioe arall am ffi newid o £2 y tocyn.

## FFI GWEINYDDOL

Rhaid talu £1.50 o dâl gweinyddol ar bob tocyn ar gyfer pob perfformiad a hyrwyddir gan Theatr Brycheiniog. Mae'r taliad hwn yn cyfrannu at dalu am ein costau manwerthu tocynnau a phrosesu taliadau'n ddiogel.

## GOSTYNGIADAU

Ar gyfer rhai perfformiadau, mae'n bosib y gallwn gynnig pris gostyngol i bobl dan 16 oed, deiliaid cerdyn Equity, aelodau HYNT, aelodau'r lluoedd arfog, pobl a gofrestrwyd yn anabl, yr henoed (60+) a myfyrwyr. Efallai y gofynnir i chi roi tystiolaeth o ran sut rydych chi'n ateb y meini prawf hyn.



## CYFRANNU

Wyddech chi ein bod ni'n elusen gofrestredig? Gallwch ein cefnogi a helpu i barhau i danio creadigrwydd y genhedlaeth nesaf, uno cymunedau ar draws Canolbarth Cymru a'r ardaloedd cyfagos, grymuso artistiaid a rhannu holl lawenydd y theatr drwy wneud cyfraniad. Bydd pob swm, waeth fawr neu fach, yn cael ei werthfawrogi'n fawr iawn.

Gallwch wneud cyfraniad drwy ein gwefan www.brycheiniog.co.uk/en/support-us, drwy ddod yn Gyfaill neu Noddwr, drwy ein blwch rhoddion yn y cyntedd neu drwy rodd neges destun.

I roi drwy neges destun, tecstiwch y gair THEARTB ac yna faint eich rhodd at 70450.
Texts will cost the donation amount plus one standard network rate message. Thank you for your support.
Rhif elusen 1005327

## CAR PARKING

Dyma brisiau talu am barcio ceir:

| | |
|---|---|
| Hyd at 1 awr: | £1.20 |
| 1-2 awr: | £2 |
| 2-4 awr: | £3.25 |
| Dros 4 awr (Drwy'r dydd): | £4 |
| Rhwng 5.30pm-8am: | £1 |
| Campyrfans dros nos: | £12 |

Mae peiriant talu'r maes parcio'n derbyn arian parod neu gerdyn. Neu lawrlwythwch ap RingGo ar eich ffôn a'i ddefnyddio i dalu. Rhif ein maes parcio yw 9129.

Derbynnir cardiau yn ein Swyddfa Docynnau hefyd, ble gellir rhoi tocyn ar gyfer eich cerbyd. Ceir cysgod i feiciau y tu allan i'r lleoliad.

## ACCESS

- Lleoedd i ddefnyddwyr cadair olwyn yn seddau'r llawr a'r llofft
- Mynediad ar y gwastad i bob ardal gy-
- Lift i bob lefel
- Mynediad i doiledau ar bob llawr
- Croesewir cŵn mynediad
- Dolen sain bersonol / clustffonau
- Parcio ceir penodol

## PERFFORMIADAU HAMDDENOL

Addasiadau i'r sioe a gynlluniwyd yn benodol i unrhyw un a allai gael y profiad theatrig arferol yn ormod, neu a fyddai'n buddio o gael amgylchedd mwy hamddenol, yw'r rhain. Yn ystod perfformiad hamddenol bydd Golau'r Tŷ'n para ynghyn ac ni ddefnyddir golau strôb a bydd synau uchel yn cael eu dileu neu leihau. Dyw gwneud sŵn yn ystod perfformiad ddim yn cael ei wgu arno ac mae rhyddid i'r gynulleidfa fynd i mewn ac allan yn ôl y galw. Rydyn ni hefyd yn darparu lle i ymneilltuo yn yr oriel os oes angen amser i ffwrdd o'r prif ddigwyddiad ar aelodau'r gynulleidfa.

## MAE THEATRE B YN CROESAWU TEULUOEDD

Dyw theatrau ddim yn cael eu gweld yn draddodiadol fel mannau sy'n croesawu babis na phlant, ond yma yn Theatr Brycheiniog rydyn ni'n daer o blaid newid hynny. Mae ein rhaglen yn cynnwys sioeau i gynulleidfaoedd ifanc yn rheolaidd, ac rydyn ni'n gwneud ein gorau i sicrhau ein bod ni'n darparu'r lle delfrydol ble gall eich teulu deimlo'n gyfforddus a mwynhau theatr fyw. Rhestrir y sioeau hyn hefyd fel 'perfformiadau hamddenol', sy'n golygu ein bod ni nid yn unig yn 'llacio' rheolau arferol ein cynulleidfa, ond y gallwch chi 'ymlacio' a mwynhau'r perfformiad hefyd.

Gall babis mewn breichiau dan 2 oed fynd am ddim

## HYNT

Mae Theatr Brycheiniog yn falch o gefnogi Cynllun HYNT. Gall aelodau'r cynllun ddod â gofalwr am ddim i'r rhan fwyaf o berfformiadau (ac eithrio digwyddiadau llog). Cred HYNT yw bod celf a diwylliant ar gyfer pawb ac os oes gennych chi nam neu anghenion mynediad penodol, y dylai mynd i'w weld barhau i fod yn hawdd a hygyrch.

**Advertise with us**
Email: info@brycheiniog.co.uk

# Amserlen Perfformiadau

*Tynnwch fi a 'nghadw!*

## Hydref

**Iau 3** 7.15pm **National Theatre Live Screening: Prima Facie** Tudalen 3

**Gwe 4** 7.30pm **Banff Moutain Film Festival (Blue Film Programme)** Tudalen 3

**Gwe 11 - Mon 14** **Brecon Baroque Festival** Tudalen 4

**Mer 16** 7.30pm **NDC Wales: Frontiers / Gorwelion** Tudalen 5

**Iau 17** 1pm **NDC Wales: Zoetrope** Tudalen 5

**Gwe 18** 7.30pm **Under Milk Wood (Screening)** Tudalen 5

**Sul 20** 2pm **The Royal Ballet Screening: Alice's Adventures in Wonderland** Tudalen 6

**Sad 26** 7.30pm **Brecon Town Concert Band: Last Night of the Proms** Tudalen 6

**Llu 28** 7.30pm **The Legends of American Country Show** Tudalen 6

**Maw 29** 7.30pm **The Three Musketeers** Tudalen 6

**Iau 31** 2pm & 7pm **The Welsh Dragon** Tudalen 7

## Tachwedd

**Gwe 1** 7.30pm **Christina Rogers: The Adele Show & more** Tudalen 7

**Sul 3** 11.30pm & 3pm **Rude Science** Tudalen 7

**Iau 7** 6.30pm **Royal Opera House Screening: Wolf Witch Giant Fairy** Tudalen 7

**Maw 12** 11am (English) & 1pm (Welsh) **Little Red Riding Hood** Tudalen 8

**Iau 14** 7.30pm **Mochyn Myrddin / Merlin's Pig** Tudalen 8

**Sad 16** 7pm **Andrea Bocelli 30: The Celebration (Screening)** Tudalen 8

**Maw 19** 1pm **Theatr na nOg: The Fight** Tudalen 9

**Mer 20** 1pm & 6.30pm **Theatr na nOg: The Fight** Tudalen 9

**Iau 21** 1pm **Theatr na nOg: The Fight** Tudalen 9

**Sad 23** 1.30 & 4.30pm **The Very Hungry Caterpilllar Show** Tudalen 9

**Sul 24** 11am & 2pm **The Very Hungry Caterpilllar Show** Tudalen 9

**Llu 25** 7.30pm **Buddy Holly & The Cricketers: Holly at Christmas** Tudalen 9

**Gwe 29** 7pm **It's An Act: Aladdin** Tudalen 10

**Sad 30** 2pm & 7pm **It's An Act: Aladdin** Tudalen 10

## Rhagfyr

**Sul 1** 12pm & 5pm **It's An Act: Aladdin** Tudalen 10

**Gwe 6** 7.30pm **O Little Town of Aberystwyth** Tudalen 10

**Maw 10** 7.15pm **The Royal Ballet Screening: Cinderella** Tudalen 11

**Gwe 20** 7.30pm **Brecon Festival Ballet: The Nutcracker** Tudalen 11

**Sad 21** 2.30 & 7.30pm **Brecon Festival Ballet: The Nutcracker** Tudalen 11

**Sul 22** 2.30 & 7.30pm **Brecon Festival Ballet: The Nutcracker** Tudalen 11

## Ionawr

**Sul 5** 4pm **WNO Orchestra: A New Year's Celebration** Tudalen 11

**Gwe 24** 7pm **Westenders: Robin Hood** Tudalen 12

**Sad 25** 12pm & 5pm **Westenders: Robin Hood** Tudalen 12

**Sul 26** 12pm & 5pm **Westenders: Robin Hood** Tudalen 12

**Maw 28** 7pm **Westenders: Robin Hood (BSL Interpreted)** Page 12

**Mer 29** 7pm **Westenders: Robin Hood** Tudalen 12

**Iau 30** 7pm **Westenders: Robin Hood** Tudalen 12

**Gwe 31** 7pm **Westenders: Robin Hood** Tudalen 12

## Chwefror

**Sad 1** 1pm & 6pm **Westenders: Robin Hood** Tudalen 12